“Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.
Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a’ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o’m hachos i.
Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o’ch blaen chwi.”
(Mathew 5:10-12)

Dyma’r olaf o’r Gwynfydau. Eto, mae’n cynnwys paradocs rhyfeddol. Does neb yn cysylltu gwynfyd â dioddefaint fel arfer. Mae’r geiriau hyn yn ein hatgoffa, fodd bynnag, bod dioddefaint yn ganolog i’r Efengyl ac i fywyd y Cristion.

Gwyn eu byd, gwyn eich byd

Mae gwahaniaeth gyda’r Gwynfyd olaf yma am fod yr Arglwydd yn manylu ar y gwynfyd cyntaf (10) trwy gyfeirio’n benodol at y disgyblion oedd yn gwrando arno, a dangos y bydden nhw’n wynebu’r math o erledigaeth yr oedd yn sôn amdano.

Erledigaeth

Wrth sôn am y gwrthwynebiad a’r gorthrymder sydd yn dod oherwydd cyfiawnder, mae’r Arglwydd yn defnyddio tri gair, sef erlid, gwaradwyddo a drygair celwyddog.

Mae erlid yn awgrymu gwrthwynebiad, ac ystyr yr enw ‘Satan’ yw ‘gwrthwynebydd’. Felly, mae’n amlwg bod gwrthwynebiad ac erlid yn rhan o’r frwydr ysbrydol rhwng Satan a Duw. Wrth ddod yn Gristnogion, yr ydym yn dod i’r frwydr ar ochr Crist, ac felly, gallwn ddisgwyl gwrthwynebiad y gwrthwynebydd.

Yn amser y Testament Newydd lladdwyd rhai trwy labyddio neu ladd â’r cleddyf.

Yng nghyfnod cynnar y Ffydd roedd erledigaeth yn dod mewn sawl ffordd. Ryn ni wedi clywed am daflu Cristnogion i’r llewod neu eu llosgi wrth y stanc; ond roedd ffyrdd erchyll eraill. Roedd Nero’n lapio Cristnogion mewn pyg a’u cynnau, er mwyn eu defnyddio fel lampau yn ei ardd. Gwnïodd rhai mewn crwyn anifeiliaid gwyllt a gosod y cŵn hela arnynt i’w darnio i farwolaeth. Cafodd

eraill ei arteithio ar y rac; eu crafu â gefel; tywalltwyd plwm poeth arnynt; gosodwyd platiau pres gwynias ar gyrff; tynnwyd llygaid; torrwyd darnau o gyrff a'u rhostio o flaen eu llygaid; llosgwyd dwylo a thraed a thywallt dŵr oer arnynt i arafu'r broses boenus.

Heddiw mae Cristnogion yn cael eu camgyhuddo, eu carcharu, eu harteithio a'u lladd mewn gwledydd fel Gogledd Korea, Eritrea, Colombia, India ac eraill hefyd.Cafodd Yr Arglwydd Iesu ei gyhuddo ar gam fel Naboth yn yr Hen Destament a Steffan.

Pam?

Mae'n amlwg nad yw Iesu'n sôn am feirniadaeth arnom am ein bod yn rhagrithiol neu ar fai yn ein ffordd o drin eraill. Does dim esgus am hynny, na rheswm i ddisgwyl bendith Duw chwaith.

Mae'r Arglwydd yn dweud y gallwn lawenhau os cawn ein herlid o achos cyfiawnder. Cyfiawnder Duw yw hwn, yr hyn y mae'r Cristion yn newynu a sychedu amdano. Er ein bod yn ceisio byw mewn ffordd sy'n iawn yng ngolwg Duw, fydd eraill ddim yn hapus gyda hynny. Roedd Daniel yn ceisio byw yn gyfiawn, ond cynllwynodd eraill yn ei erbyn er mwyn ei faglu a'i weld yn cael ei daflu i'r llewod.

Mae Iesu hefyd yn sôn am ddioddef **'o'm hachos i'.** Yn fuan wedi hyn, cafodd credinwyr eu galw'n Gristionogion, a hynny fel enw dirmygus oedd yn eu cysylltu â'r Gwaredwr (Act. 11:26). Roedd yr apostolion yn ei chyfrif yn fraint "**i dderbyn amarch er mwyn yr Enw"** (Act. 5:41).

'Llawenhewch'

Mae'r gair am 'orfoleddu' yn golygu llamu mewn gorfoledd (cf.Luc 6:23). Dyw Iesu ddim yn ein hannog i fod yn debyg i'r Stoiciaid oedd yn goddef poen heb ddangos emosiwn, ond chwaith dyw e ddim yn disgwyl i ni fod yn fasochistaidd yn mwynhau poen; does neb call yn mwynhau poen nac yn mwynhau dioddef.

Testun llawenydd a gorfoledd y Cristion sy'n dioddef oherwydd achos Crist yw'r wobr nefol fydd yn ei ddisgwyl. Gwobr Crist oedd yr atgyfodiad a brenhiniaeth y deyrnas nefol, a daw gwobr i'r Cristion yn y nef o gael teyrnasu gyda Christ hefyd. Pan labyddiwyd Steffan **"gwelodd ogoniant Duw, ac Iesu'n sefyll ar ddeheulaw Duw"** (Act.7.55). Mae rhywun wedi dweud fod Iesu'n sefyll am ei fod yn rhoi cymeradwyaeth arbennig i'r merthyr cyntaf.

Mae Iesu'n dweud fod dioddef erledigaeth yn nodwedd o'r gwir Gristion. Dyma ddigwyddodd i'r gwir broffwydi yn yr Hen Destament, dyma ddigwyddodd i Grist, a dyma fydd yn digwydd i'r gwir ddisgybl: **"Yn wir, eu herlid a gaiff pawb sydd yn ceisio byw bywyd duwiol yng Nghrist Iesu"** (1 Tim. 3:12).

'nid rhyfedd os gwawdir y gwas,
cans gwawd gafodd Arglwydd y ne'. (Benjamin Francis)